Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesurau Perfformiad Cyson

## Mesur Cyrchfannau 2016/17

Nodiadau Esboniadol

Fersiwn 2 – Medi 2020

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 1

**Trosolwg o'r mesur cyrchfannau** 1

- **Carfan** 1
- **Diffiniadau'r mesur** 2
    - **Cyflogaeth barhaus** 2
    - **Dysgu parhaus** 3
    - **Cyflogaeth a dysgu parhaus** 4
    - **Cyrchfan barhaus** 4
- **Data sylfaenol arbrofol** 5
    - **Crynodeb** 5
    - **Dadansoddiad o ryw ac oedran** 5
    - **Dadansoddiad o lefelau** 6
    - **Dadansoddiad o sectorau** 7
    - **Dadansoddiad o MALIC** 7
    - **Dadansoddiad o lefelau a darparwyr cyrchfannau** 7
- **Ffynonellau data allweddol** 8
- **Proses baru** 8
- **Oedi** 9

**Atodiad A – Rhestr o dermau** 11

## Cyflwyniad

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o fesurau perfformiad ar gyfer colegau addysg bellach (AB) a chweched dosbarth ysgolion, sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr yn y sector ôl-16. Y mesurau yw cyflawniad dysgwyr, gwerth ychwanegol, a chyrchfannau; bydd y rhain yn disodli'r mesurau presennol ymhen amser.

2 Nid oes dull systematig wedi bod o'r blaen i edrych ar gyrchfannau parhaus dysgwyr ar gyfer AB neu chweched dosbarth ysgolion, na ffordd gadarn o nodi symud ymlaen i gyflogaeth.

3 Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cytundeb i gymryd rhan yn rhaglen cysylltu data ar raddfa fawr Llywodraeth y DU. Fe'i gelwir yn Astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol (LEOS), ac mae'n gwneud yn siŵr bod cofnodion dysgwyr yn cyfateb i ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyflogaeth, enillion a budd-daliadau, sy'n rhoi darlun mwy cynhwysfawr o gyrchfannau dysgwyr nag erioed o'r blaen.

4 Er mwyn cael darlun llawn o gyrchfannau dysgwyr, gan gynnwys addysg yn ogystal â chyflogaeth, rydym hefyd wedi sefydlu set ddata wedi'i chyfateb sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol; mae'r set yma'n dod â chofnodion ar gyfer ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch at ei gilydd mewn un lle.

5 Drwy gael mynediad at ddata LEOS a'r set ddata wedi'i chyfateb addysgol, rydym ni'n gallu datblygu mesur ar gyfer cyrchfannau; ac rydym yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu a'n methodoleg. Rydym wedi cyhoeddi erthygl ystadegol erbyn hyn sy'n cynnwys dadansoddiad o gyrchfannau carfanau gadawyr 2016/17; ac er mwyn deall y mesur cyrchfannau a sut mae'r data'n edrych ar gyfer eich coleg neu ysgol, rydym wedi anfon eich data sylfaenol atoch chi.

6 Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am eich data sylfaenol, cysylltwch â ni yn post16quality@llyw.cymru.

## Trosolwg o'r Mesur Cyrchfannau

7 Mae dysgwyr ôl-16 mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB oll yn ymgymryd â rhaglen astudio, sy'n cynnwys cyfuniad o gymwysterau. Fel arfer, mae rhaglenni dysgu yn cynnwys y prif gymwysterau fel Safon Uwch neu BTEC, ynghyd â chymwysterau ychwanegol fel Bagloriaeth Cymru, Sgiliau Hanfodol Cymru, a/neu gymwysterau sy'n ofynnol gan wahanol ddiwydiannau. Rhaglenni dysgu yw'r 'uned' sylfaenol rydym ni'n ei defnyddio fel man cychwyn ar gyfer y mesur cyrchfannau.

### Carfan

8 Mae'r garfan ar gyfer y mesurau yn seiliedig ar y rhai sy'n gadael yr ysgol gyda rhaglenni sydd wedi'u terfynu yn y flwyddyn academaidd (1 Awst i 31 Gorffennaf) ac eithrio'r rhai sy'n gadael yn gynnar h.y. dysgwyr sy'n terfynu rhaglen ddysgu

heb ei gorffen cyn pen 8 wythnos o'i dechrau. Mae rhaglenni sydd wedi'u 'terfynu' yn cynnwys pob un sydd wedi dod i ben (y cofnodwyd iddynt gael eu 'cwblhau' neu eu 'tynnu yn ôl') yn ystod y flwyddyn academaidd, p'un a yw'r dysgwr wedi cwblhau'r rhaglen ai peidio. Mae dysgwyr amser llawn a rhan-amser yn cael eu cynnwys yn y garfan.

9 Pan fydd dysgwr yn terfynu mwy nag un rhaglen yn ystod y flwyddyn academaidd, adroddir ar y canlyniad yn erbyn y rhaglen ddysgu a gafodd ei therfynu yn fwyaf diweddar.

10 Daw'r data ar gyfer y garfan dysgwyr o ddyddiadau dechrau a gorffen y rhaglen ddysgu yn y canlynol:

- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (mae'r rhewi terfynol yn cael ei gymryd ym mis Rhagfyr yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd); a
- Casgliad ôl-16, sy'n cael ei gasglu ym mis Hydref yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd.

**Diffiniadau'r mesur**

11. Mae cyrchfan dysgwr yn ymwneud â'i weithgaredd yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Felly, ar gyfer carfan 2016/17, adroddir ar gyrchfannau ar gyfer 2017/18.

12. Mae canrannau sy'n caniatau cyfrifo gwerthoedd cyfartaledd cenedlaethol o llai na 5 wedi'u diystyru, ac fe'u nodir gyda *


13. Rydym wedi defnyddio'r un diffiniadau ar gyfer cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ag y mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn eu defnyddio ar gyfer ystadegau Deilliannau Addysg Hydredol (LEO). Mae'r mesur cyflogaeth barhaus yn caniatáu saib o fis mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill i adlewyrchu y gallai fod llai o sefydlogrwydd a diogelwch gyda chyflogaeth nag addysg. Pan fo'r saib yn digwydd ym mis Mawrth, byddir yn edrych ar weithgarwch mis Ebrill i weld a yw'n saib byr neu'n egwyl fwy sylweddol.

**Cyflogaeth barhaus**

13 Mae'r diffiniad o gyflogaeth barhaus yn edrych ar weithgareddau cyflogaeth yn y cyfnod o chwe mis (Hydref - Mawrth) yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd y digwyddodd y dysgu ynddi. Er mwyn i garfan 2016/17 gael ei chyfrif fel un sydd mewn cyflogaeth barhaus:

- Mae'n rhaid i ddysgwr fod mewn gwaith cyflogedig cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) am ddiwrnod y mis o leiaf yn ystod pump o'r chwe mis rhwng mis Hydref 2017 a Mawrth 2018; neu
- Mae'n rhaid i ddysgwr fod wedi cwblhau ffurflen hunanasesu ar gyfer blwyddyn dreth 2017-18 sy'n nodi ei fod wedi cael incwm o hunangyflogaeth a bod ei enillion o Bartneriaeth neu fenter Unig Fasnachwr yn fwy na £0 (elw o hunangyflogaeth).

**Ffigur 1: Yr wyth senario posibl sy'n arwain at ddosbarthu dysgwr fel un sydd mewn cyflogaeth barhaus**





## Dysgu parhaus

14 Mae'r diffiniad o ddysgu parhaus yn edrych ar weithgareddau dysgu yn y cyfnod o chwe mis rhwng mis Hydref a Mawrth yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd y digwyddodd y dysgu ynddi. Er mwyn i garfan 2016/17 gael ei chyfrif fel un sydd mewn dysgu parhaus:

- Mae’n rhaid i ddysgwr fod mewn addysg (Addysg Bellach, Addysg Uwch neu Ddysgu Seiliedig ar Waith) sydd ar yr un lefel neu lefel uwch na rhaglen 2015/16 am ddiwrnod y mis o leiaf yn ystod pob un o'r chwe mis rhwng mis Hydref 2017 a Mawrth 2018.

15 Mae'r data sylfaenol yn dangos dadansoddiad ar wahân pan fydd y dysgwr wedi mynd i ddysgu parhaus ar yr un lefel neu ar lefel uwch.

**Ffigur 2: Y senario unigol sy'n arwain at ddosbarthu dysgwr fel un sydd mewn dysgu parhaus**



## Cyflogaeth a dysgu parhaus

16 Bydd rhai dysgwyr yn bodloni'r diffiniad o gyflogaeth barhaus a dysgu parhaus (e.e. efallai eu bod wedi symud ymlaen i raglen brentisiaeth; eu bod yn astudio'n llawn amser gyda swydd gyda'r nos neu ar benwythnosau; neu eu bod mewn gwaith cyflogedig ac yn astudio'n rhan-amser).

## Cyrchfan barhaus


17 Nod y mesur ‘cyrchfan barhaus’ yw cyfrif cyfran y dysgwyr â chanlyniad parhaus, naill ai i ddysgu neu gyflogaeth (neu'r ddau).

18 Er mwyn i’r rhai sydd wedi gadael yr ysgol yn 2016/17 gael eu cyfrif fel rhai â chyrchfan barhaus, mae’n rhaid i ddysgwr naill ai fod â:

- Canlyniad cyflogaeth barhaus;
- Canlyniad dysgu parhaus; neu
- Canlyniad cyflogaeth barhaus ynghyd â dysgu parhaus.

19 Mae cyfartaleddau cenedlaethol yn cael eu cynnwys fel eich bod chi’n gallu cymharu eich perfformiad yn erbyn y gyfradd a gyflawnwyd ar gyfartaledd ar draws yr holl golegau AB a chweched dosbarth ysgolion yng Nghymru.


**Ffigur 3: Y deuddeg senario posibl sy'n arwain at ddosbarthu dysgwr fel un â chyrchfan barhaus**




20 I gydnabod efallai na fydd y mesur dysgu parhaus sydd wedi’i nodi uchod yn adlewyrchu gwerth llawn dysgu pellach ar bob lefel, cyflwynir mesur eilaidd sy'n dangos yr holl ddysgu:

- **Dysgu (nad yw'n barhaus)** – mae'n rhaid i ddysgwyr fod mewn addysg ar lefel gyfartal neu uwch na'r rhaglen a derfynwyd am ddiwrnod o leiaf rhwng mis Hydref a Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol
- **Cyrchfan dysgu a chyflogaeth barhaus** – dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrchfan cyflogaeth barhaus neu gyrchfan dysgu (nid oes rhaid iddi fod yn barhaus)

**Ffigur 4: Y senario unigol sy'n arwain at ddosbarthu dysgwr fel un sydd mewn addysg**




## Tablau data sylfaenol

21 Anfonwyd cyfres o dablau data sylfaenol at bob ysgol a choleg AB - roedd y rhain yn dangos y data cyrchfannau ar gyfer eu sefydliadau nhw.

22 Gan nad oedd y data yn y tablau wedi'i ddal yn ôl, roeddem wedi gofyn iddyn nhw beidio â rhannu'r data â ffynonellau allanol na'i gyhoeddi. Nid oedd data ategol lefel dysgwr unigol wedi'i gynnwys gyda'r tablau cychwynnol, ond rydym yn bwriadu ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

23 Roedd chwech taflen waith fel yr ydym yn nodi isod.

*Crynodeb*

**Cyrchfannau - Crynodeb**

| 2016/17 | 2017/18 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr sy'n gorffen (ac eithrio dysgwyr sy'n sy'n gadael y cwrs yn gynnar) | Cyflogaeth barhaus yn unig | Cyfartaledd cenedlaethol | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus | | Cyfartaledd cenedlaethol | Dysgu parhaus yn unig | | Cyfartaledd cenedlaethol | Cyrchfan barhaus | Cyfartaledd cenedlaethol |
| | | | | | | | | | | |
| | | | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar lefel uwch | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar yr un lefel | | Dysgu parhaus ar lefel uwch yn unig | Dysgu parhaus ar yr un lefel yn unig | | | |
| | | | | | | | | | | |

*Dadansoddiad o ryw ac oedran*

**Rhyw**

| 2016/17 | | 2017/18 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Dysgwyr sy'n gorffen (ac eithrio dysgwyr sy'n sy'n gadael y cwrs yn gynnar) | Cyflogaeth barhaus yn unig | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar lefel uwch | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar yr un lefel | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus (ar yr un lefel ac ar lefel uwch) | Dysgu parhaus ar lefel uwch yn unig | Dysgu parhaus ar yr un lefel yn unig | Dysgu parhaus yn unig (ar yr un lefel ac ar lefel uwch) | Cyrchfan barhaus | | Dysgu parhaus ar lefel is yn unig* |
| Benyw | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Gwryw | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| **Cyfanswm **** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |

27 Mae’r dadansoddiad hwn yn cael ei gynnwys ar gyfer rhaglenni dysgu galwedigaethol yn unig, gan fod dysgwyr sy’n ymgymryd ag addysg gyffredinol (Safon Uwch neu raglenni ‘cymysg’) yn aml yn astudio cyfuniad o bynciau na ellir eu neilltuo i sector/maes pwnc penodol. O ganlyniad, bydd cyfanswm nifer y dysgwyr yn y tabl hwn yn wahanol i’r cyfanswm mewn tablau eraill.

28 Daw’r sector o’r cod rhaglen sydd ar gael yn y canlynol:

- maes LP74 o’r LLWR; a’r
- maes Cyfeirnod y Rhaglen yn y casgliad ôl-16.

*Dadansoddiad o MALlC*

29 Mae’r dadansoddiad hwn yn cyflwyno data’r cyrchfannau yn ôl degradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru yw MALlC. Mae’n amlygu ardaloedd sydd â’r crynoadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. Mae MALlC yn rhestru’r holl ardaloedd bach yng Nghymru o 1 (ardal â’r amddifadedd mwyaf) i 1,909 (ardal â’r amddifadedd lleiaf). Gallwch gael rhagor o wybodaeth am MALlC ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Cyrchfannau yn ôl degradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)**

| 2016/17 | | 2017/18 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Degradd MALIC | Dysgwyr sy'n gorffen (ac eithrio dysgwyr sy'n sy'n gadael y cwrs yn gynnar) | Cyflogaeth barhaus yn unig | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar lefel uwch | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus ar yr un lefel | Cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus (ar yr un lefel ac ar lefel uwch) | Dysgu parhaus ar lefel uwch yn unig | Dysgu parhaus ar yr un lefel yn unig | Dysgu parhaus yn unig (ar yr un lefel ac ar lefel uwch) | Cyrchfan barhaus | | Dysgu parhaus ar lefel is yn unig* |
| Degradd 1 MALIC (yr amddifadedd mwya | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 2 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 3 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 4 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 5 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 6 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 7 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 8 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 9 MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd 10 MALIC (yr amddifadedd lleia | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |
| Degradd anhysbys MALIC | - | - | - | - | - | - | - | - | - | | - |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | | Amherthnasol |

30 Daw’r data o:

- faes LN11 o’r LLWR (Cod post); a
- maes cod post y Disgybl yn y casgliad ôl-16.

*Dadansoddiad o lefelau a darparwyr cyrchfannau*

31 Mae’r dadansoddiad hwn yn cyflwyno data’r cyrchfannau yn ôl lefel y dysgwr a’r math o ddarparwr y mae’r dysgwr wedi symud ymlaen iddo. Is-set yw hon o’r dysgwyr hynny â chyrchfan dysgu parhaus sydd wedi’u cynnwys yn y tabl Lefelau. Mae dysgwr sy’n symud i Ddarparwr Addysg Uwch yng Nghymru hefyd yn cael ei gyflwyno ar wahân yn ôl grwpiau HEP: Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt; Russell Group a Sutton Trust 30. Nid yw’r grwpiau hyn yn annibynnol ar ei gilydd.

**Cyrchfannau Dysgu yn ôl lefel a chyrchfan y darparwr**

| Lefel | | Cyrchfan ddysgu barhaus (ar yr un lefel a lefel uwch) (nifer y dysgwyr) | 2017/18 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dysgwyr sy'n gadael ac sy'n gorffen mewn cyrchfan ddysgu barhaus, gyda darparwr cyrchfan | | | | | | | | | |
| | | | Ysgol | | Addysg Bellach | | Dysgu Seiliedig ar Waith | | Darparwyr Addysg Uwch (DAU) | | | |
| | | | | | | | | | Holl DAU y DU | Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Caergrawnt | Russell Group | Sutton Trust 30 |
| | | | Yr un Lefel | Lefel Uwch | Yr un Lefel | Lefel Uwch | Yr un Lefel | Lefel Uwch | Yr un Lefel a Lefel Uwch | | | |
| Lefel 3 | Rhaglen safon UG | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Rhaglen A2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Galwedigaethol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Rhaglen ddysgu amhenodol chweched dosbarth | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Pob lefel 3** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Lefel 2 | TGAUau | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Galwedigaethol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Pob lefel 2** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Lefel 1 | Galwedigaethol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Cyfartaledd cenedlaethol** | Amherthnasol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **Pob lefel 2** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

32 Daw'r data o god y rhaglen y gellir ei weld yn y canlynol:

- Maes LP74 o'r LLWR; a
- Maes Cyfeirnod y Rhaglen yn y casgliad ôl-16.

## Ffynonellau data allweddol

33 Defnyddir ffynonellau data gweinyddol sydd gan y llywodraeth yn barod er mwyn cyfrifo'r mesurau, felly nid oes unrhyw faich ychwanegol yn cael ei roi ar ddarparwyr, unigolion na chyflogwyr i gasglu gwybodaeth newydd.

34 Dyma'r ffynonellau data allweddol a ddefnyddir i gyfrifo'r mesurau:

- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR): mae'n cynnwys data ar addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned. Caiff y data ei gasglu yn gyson drwy gydol y flwyddyn a bydd yr ystadegau'n cael eu rhewi'n rheolaidd; mae'n darparu'r ffynhonnell ystadegau swyddogol ar ddysgwyr ôl-16 (nad ydynt mewn addysg uwch) yng Nghymru
- Casglu Data Ôl-16: bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth yn ogystal ag ysgolion canol sydd â disgyblion ym mlwyddyn 12, 13 a/neu 14, roi gwybod am yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu y mae'r dysgwyr wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol
- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA): casgliad blynyddol o amrywiaeth o ddata ledled y DU gan brifysgolion, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a ariennir mewn ffyrdd gwahanol; yna rhoddir y data hwn i lywodraethau a chyrff cyllido addysg uwch y DU i gefnogi'r gwaith maen nhw'n ei wneud i reoli a chyllido darparwyr addysg uwch

Set ddata wedi'i chyfateb i addysg

- Data cyflogaeth P45 a P14 (sy’n cael ei gadw gan CThEM): set ddata weinyddol sy’n cynnwys y rhai sy’n talu treth drwy gynllun Talu Wrth Ennill, neu wrth i gyflogwr gyflwyno P45 a P14, neu drwy lenwi ffurflen dreth hunanasesiad. Diben craidd y broses hon yw casglu treth gan y rhai sy'n gymwys i'w thalu drwy'r system hon ac felly nid oes darpariaeth lawn. Nid yw'n ofynnol i gyflogwyr roi gwybodaeth i Gyllid a Thollau EM ynghylch unigolion sy'n ennill cyflog islaw'r trothwy treth; er, ar gyfer cyflogwyr mawr, credir bod yr unigolion hyn yn cael eu cynnwys oherwydd y dulliau trosglwyddo data.

Set ddata cyflogaeth

**Proses baru**

35 Mae cofnodion dysgwyr o'r LLWR a'r Casgliad Ôl-16 yn cael eu cysylltu â data’r Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM i arsylwi gweithgareddau budd-daliadau a chyflogaeth, ac i setiau data addysg eraill i arsylwi gweithgareddau ôl-ddysgu.

*Cyrchfannau cyflogaeth*

36 Er mwyn llunio’r mesurau defnyddiwyd set ddata wedi’i chyfateb o ffynonellau data gweinyddol ar lefel person gan Lywodraeth Cymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM. Mae dysgwyr o LLWR a'r Casgliad Ôl-16 yn cael eu paru i gofnodion budd-daliadau’r Adran Gwaith a Phensiynau a ffurflenni treth incwm P45 a P14 CThEM gan ddefnyddio cymysgedd o Rif Yswiriant Gwladol a chydweddu â manylion personol eraill. Mae'r algorithm paru yn dibynnu ar lenwi nifer o feysydd yn gywir ar draws y ddwy set ddata ac ni fydd gan bob dysgwr o reidrwydd unrhyw gofnod o gyflogaeth neu fudd-daliadau am resymau dilys, felly ni fydd y gyfradd paru byth yn cyrraedd 100%. Mae dros 98% o ddysgwyr yn cael eu paru â data’r Adran Gwaith a Phensiynau neu CThEM, ac felly mae hynny’n darparu maint cynrychiadol o’r gweithgarwch.

37 Ar ôl gwneud hynny, y cam nesaf yw uno'r ffeiliau data amrywiol (cyflogaeth, budd-daliadau, a dysgwyr) ar sail y cysylltiad cofnod lefel person a ddiffinnir yn sgil y paru. Mae setiau data’r Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM yn darparu cofnod o'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau a'r rhai sy'n talu treth drwy'r systemau hunanasesu a Thalu Wrth Ennill. Yna, defnyddir rheolau prosesu i drawsnewid y data yn wybodaeth y gellir ei defnyddio ar gyflogaeth a derbyn budd-daliadau i gefnogi’r holl ddadansoddiadau.

*Cyrchfannau dysgu*

38 Defnyddiwyd y “set ddata addysg wedi’i chyfateb” i lunio’r mesurau. Yn dilyn ymarfer tendro, rhoddodd Llywodraeth Cymru gontract i gontractiwr trydydd parti i ymgymryd ag ymarfer cysylltu data, rhoi dynodwr dienw cyffredin ar gofnodion o sawl casgliad data addysg (gan gynnwys ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch), er mwyn cysylltu setiau data amrywiol at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

**Oedi**

39 Daw’r holl ddata a ddefnyddir yn y broses hon o ffynonellau gweinyddol, sy'n cymryd amser i’w brosesu a’i goladu. Mae'r oedi rhwng y cyfnod cyfeirio ac argaeledd y set ddata i'w dadansoddi wedi’i nodi isod:

- Mae data **LLWR** yn cael ei goladu o ffurflenni gan golegau, ac mae’r data dros dro sydd wedi’i gasglu hyd yma fel arfer yn cael ei gyhoeddi bob chwarter. Yn gyffredinol, nid yw ffurflenni wedi’u cwblhau tan hyd at chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd, sy'n rhedeg o 1 Awst i 31 Gorffennaf.
- Mae data **Casgliad Ôl-16** yn cael ei goladu o ffurflenni gan ysgolion a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth yn ogystal ag ysgolion canol sydd â disgyblion ym mlwyddyn 12, 13 a/neu 14 ym mis Hydref, ac yn gyffredinol maen nhw wedi’u cwblhau erbyn mis Rhagfyr.
- Mae **data HESA** yn cael ei goladu o ffurflenni gan sefydliadau ac mae data ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn ar gael oddeutu chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.
- Mae **data cyflogaeth** yn cael ei gyfateb i ddata’r Adran Gwaith a Phensiynau yn rheolaidd. Mae rheolau glanhau yn berthnasol i'r data, sy'n nodi’r hen gofnodion pan fyddan nhw’n cael eu diweddaru â gwybodaeth newydd. Gan fod gwybodaeth newydd yn gallu dod i law am swydd ar ôl iddi ddod i ben, mae’n newid yn gyson ac yn hanesyddol ystyriwyd bod y data yn gyflawn ar ôl tua chwe mis.

40 Y cylch blynyddol yn y dyfodol ar gyfer y mesurau cyrchfannau yw cyhoeddi ym mis Medi ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben ddwy flynedd ynghynt.

## Rhestr o dermau

| | |
|---|---|
| **Ymadawr cynnar/un sy'n gadael yn gynnar** | Mae dysgwyr sy'n terfynu rhaglen ddysgu heb ei gorffen cyn pen 8 wythnos o'i dechrau, yn cael eu trin fel rhaid sydd wedi gadael yn gynnar. |
| **Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)** | Casgliad blynyddol o amrywiaeth o ddata ledled y DU gan brifysgolion, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a ariennir mewn ffyrdd gwahanol; yna rhoddir y data hwn i lywodraethau a chyrff cyllido addysg uwch y DU i gefnogi'r gwaith maen nhw'n ei wneud i reoli a chyllido darparwyr addysg uwch |
| **Carfan dysgwyr** | Y grŵp o ddysgwyr sy'n cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau. |
| **Rhaglen ddysgu** | Pecyn dysgu â diben clir a deilliannau sydd wedi'u cynllunio, a ddarperir drwy brif gymhwyster a gweithgareddau dysgu ychwanegol fel y nodir yn y Fframwaith Cynllunio a Chyllido. |
| **Astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol (LEOS)** | Rhaglen cysylltu data Llywodraeth y DU sy'n gwneud yn siŵr bod cofnodion addysgol dysgwyr yn cyfateb i ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyflogaeth, enillion a budd-daliadau. |
| **Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)** | Y ffordd o gofnodi data am ddysgwyr, eu rhaglenni, gweithgareddau a dyfarniadau a gyflwynir gan golegau AB i Lywodraeth Cymru. |
| **Cyfartaledd cenedlaethol** | Y gyfradd a gyflawnwyd ar gyfartaledd ar draws yr holl golegau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion yng Nghymru. |
| **Casgliad ôl-16** | Rhaid i bob ysgol a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth yn ogystal ag ysgolion canol sydd â disgyblion ym Mlwyddyn 12, 13 a/neu 14, roi gwybod am yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu y mae'r dysgwyr wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. |
| **Rhaglen ddysgu wedi'i therfynu** | Unrhyw raglen ddysgu y cofnodwyd iddi gael ei chwblhau neu ei thynnu'n ôl. |